

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn rhithiol ar
Nos Lun 13eg Rhagfyr, 2021 am 7.30 y.h.
Minutes of Trawsgoed Community Council held virtually on
Monday 13th Decemberr, 2021 at 7.30 p.m.

Presennol/Present: Cyng./Cllr. P. Bonner. (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. H.M. Evans,
Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. L. Owen.
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

Ymddiheuriadau / Apologies:, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan

- | | | |
|-----|--|---|
| 123 | Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.
Datganodd Cyng. Elen Lewis ddiddordeb personol a rhagfarnol wrth drafod eitem 144 Cais Cynllunio | Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items.
Cllr Elen Lewis declared a personal and prejudicial interest when discussing item 144 Planning Application |
| 124 | Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 18fed Hydref, 2021. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans. | Minutes of the Last Meeting
The minutes of the last meeting, 18 th October, 2021, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. H Evans. |
| 125 | Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau. | Risk and Asset Assessment
There were no matters arising regarding Assets. |
| 126 | Materion yn codi o'r Cofnodion
Paentio llinellau gwyn ar y ffyrdd wedi cwblhau yn Llanfihangel y Creuddyn ond yr angen yn parhau yn Cnwch Coch a Llanafan. | Matters arising from the Minutes
The painting of White lines on the roads have been completed at Llanfihangel-y-Creuddyn but remains requiring attention at Cnwch Coch and Llanafan. |
| 127 | Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau, cadw ar agenda. | Flooding on the road near New Cross is continuing, keep on the agenda. |
| 128 | Gwter ar y ffyrdd canlynol wedi gorlenwi: ar ben y Rhiw Cnwch Coch; ar y ffordd o Gnwch Coch i Gapel Cynon; Penffordd, y Gors i Lanfihangel-y-Creuddyn gwter wedi gorlenwi gyda drysni a'r dwr yn gorlifo ar y ffordd – cadw ar yr agenda. | Overflowing gutters on the following roads: top of the hill out of the village of Cnwch Coch and along the road towards Capel Cynon; from Penffordd, New Cross towards Llanfihangel-y-Creuddyn the overgrown grass has caused water to seep on the road – keep on the agenda. |
| 129 | Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda Chyngor Sir Ceredigion am y glanhawr ffordd i Bentref Cnwch Coch ac i deithio ar y ffordd i fyny at Gapel Carmel, Cnwch Coch a hefyd y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag | The Clerk to make further contact with Ceredigion County Council for the road sweeper to visit Cnwch Coch as well as sweep the road up to Capel Carmel, Cnwch Coch. Also the sweeper is needed |

- at y B4340 ble mae cyflwr y ffordd gyda canghenau coed a mwd ar hyd manau o'r ffordd.
- on the road from the Old School, Llanafan towards the B4340 as there is considerable branches and roadside mud along the road
- 130 Angen cadw llygad ar y drain ddŵr sydd wedi gorlenwi gyferbyn â Chapel Llanafan. Need to monitor the blocked water drain opposite the Chapel at Llanafan.
- 131 Y ffyrdd canlynol angen sylw brys ar yr arwynebedd: The following road surfaces need urgent attention:
- 132 Ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn; y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin; the road passing the School at Llanfihangel-y-Creuddyn; road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields.
- 133 Shetin rhwng Brynafan a Llanafan parhau angen torri nol. Hedge between Brynafan and Llanafan that needs cutting back still requires attention
- 134 Mynychodd y Cyng. C. Lloyd-Morgan y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar y 24 Tachwedd 2021 ac er nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn roedd wedi paratoi adroddiad cynhwysfawr o gynnwys y cyfarfod gyda Chyngor Sir Ceredigion. Mewn ymateb i'r cwestiwn pam y cymerir cyhyd i rai materion gael eu gweithredu arnynt a adroddwyd arnynt i'r Cyngor Sir nodwyd yn gyffredinol gan Swyddogion y Cyngor Sir bod y problemau'n deillio'n benaf mewn gostyngiad enbyd yn incwm a geir o San Steffan a'r effaith mae'r pandemig yn gael ar flaenoriaethau'r Cyngor Sir. Cllr. C. Lloyd-Morgan attended the meeting between representatives of the County Council and Town and Community Councils on 24 November 2021 and although she was not present at this meeting she had prepared a comprehensive report of the content of the meeting with Ceredigion County Council. In response to the question of why it takes so long for some issues to be acted upon once reported to the County Council it was generally noted by County Council Officers that the problems stemmed in the reduction in income from Westminster and the effect of the pandemic on the County Council's priorities.
- 135 Adroddwyd fod Cyngor Sir Ceredigion wedi trefnu i lenwi'r tyllau yn y ffyrdd mewn sawl lleoliad ar sgwâr pentref Cnwch Coch a hefyd ar y ffordd o gyfeiriad Llanafan tuag at y B4340 sydd angen sylw brys.. Ceredigion County Council had arranged to fill in the potholes in the road in several places on the village square of Cnwch Coch as well as on the road from Llanafan towards the B4340.
- 136 Y Clerc i ddilyn lan yr angen am lanhau y grid-anifeiliaid cyntaf ar y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant. The Clerk to follow up that the first cattle grid needs cleaning on the road from Llanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant.

- Materion Cyllidol**
- 137 Penderfynwyd talu anfoneb am y Rhyth Pabbi o £17.00 ac hefyd cyflwyno rhodd o £13.00 tuag at y Lleng Brydeinig I wneud cyfansmw o £30.00
Cynigiwyd y taliad gan Cyng. J. George ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.
- 138 Cyfeiriodd y Clerc at ohebiaeth a dderbyniodd gan Banc yr HSBC yn nodi y byddid yn codi pris gweinyddu am gyfrifon y Cyngor Bro o hyn ymlaen, £5.00 y mis am bob cyfrif.
- Yn dilyn trafodaeth cytunwyd:
- i gau y cyfrif banc segur a oedd wedi agor yn un pwrpas ar gyfer derbyn grantiau ar gyfer Maes Chwarae Maes y Felin gan drosglwyddo'r £27.68 a oedd yn y cyfrif i'r cyfrif cyfredol.
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo'r ddau gyfrif banc arall, cyfredol a cynilion i fanc arall sydd wedi lleoli yn Aberystwyth.
- Gohebiaeth**
- 139 Nodwyd yr ohebiaeth ganlynol wrth Cyngor Sir Ceredigion:
- 140 Gwahoddiad i Gynghorwyr Cymuned fod yn Aelod o Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.
- 141 Llythyr ynghylch trefniadau Etholiadau Ceredigion o fis Mai 2022 ymlaen.
- 142 Gwybodaeth am ddyledion a chefnogaeth.
- 143 Cais am Adnabod Adeiladau Cymunedol fel Canolfannau Gorffwys mewn argyfwng posibl o fewn y Gymuned. Cytunwyd i gyfeirio'r adeiladau isod at y Cyngor Sir:
Neuadd Lisburn Llanafan,
Ferstri Capel Llanafan,
Neuadd yr Eglwys Llanafan,
Festri Capel Carmel, Cnwch Coch.
- Cais Cynllunio:**
- 144 Datganodd Cyng. Elen Lewis ddiddordeb personol a rhagfarnol wrth drafod eitem yr eitem yma ac ymadawodd â'r Cyfarfod.
- Finance**
- It was resolved to pay the invoice from the British Legion of £17.00 for the Poppy Wreath as well as £13.00 donation to the British Legion making a total of £30.00
Proposed by Cllr. J. George and seconded by Cllr. A. Davies.
- The Clerk referred to correspondence received from HSBC Bank stating that there would be a fee of £5.00 per account per month on all the Community Council bank accounts.
- Following discussion it was agreed:
- to close the dormant bank account that was purposely for receiving grants for Maes y Felin Playing Field and transferring the £27.68 in the account to the current account.
- Investigate the possibility of transferring the other two bank accounts, current and savings to another bank based in Aberystwyth.
- Correspondence**
- The following was noted from Ceredigion County Council
- Invitation for Community Councillors to be part of Ceredigion Local Access Forum.
- Letter relating to the Ceredigion Electoral arrangements from May 2022.
- Information on debts and support.
- Request to Identifying Community Venues to act as possible Emergency Rest Centres. It was decided to refer the following to Ceredigion County Council:
Lisburn Hall, Llanafan
Llanafan Chapel Vestry
Llanafan Church Hall
Carmel Chapel Vestry, Cnwch Coch
- Planning Application**
- Cllr Elen Lewis declared a personal and prejudicial interest when discussing this item and left the meeting.

A210982 Pendre, Llanfihangel-y-creuddyn, Aberystwyth, SY23 4LB
Proposed 3 no. glamping pods, alterations to existing access and installation of package treatment plant.

Oherwydd derbyniwyd gohebiaeth sensitif yn ymwneud â'r cais uchod trafodwyd sylwadau ar y cais cynllunio fel eitem wedi eithrio o dan Rhan 3 (d) Rheolau Sefydlog y Cyngor Bro.

Cytunwyd yn unfrydol ar yr ymateb isod.

Ar ôl edrych ar y cais cynllunio yn ei gyfanrwydd unigol, penderfynodd Cyngor Bro Trawsgoed nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor ond roedd pryderon ynghylch mynediad i'r safle, gan ei bod yn ymddangos y byddai'r mynediad arfaethedig ar gyfer y podiau glampio yn cael ei greu o fynediad presennol y lôn i'r briffordd. Gofynnir i'r Adran Briffyrdd edrych ar addasrwydd trefniant mynediad o'r fath ynghylch pryderon diogelwch.

Derbyniodd y Cyngor Bro ohebiaeth oedd yn awgrymu nad yw'r holl dir a nodir yn goch ar y cais dan berchnogaeth lawn yr ymgeisydd. Ni all y Cyngor Bro gadarnhau'r wybodaeth hyn a gan bod y wybodaeth wedi dod i sylw'r Cyngor Cymuned gofynnir bod y Swyddogion Cynllunio yn gwneud ymholiadau pellach i berchnogaeth y tir dan sylw neu ganiatâd perthnasol wedi dderbyn cyn gwneud penderfyniad ar y cais.

Fel sylw cyffredinol, roedd pryder ynghylch y nifer diweddar o geisiadau am podiau a phebyll glampio sydd wedi'u cymeradwyo o fewn ardal Llanfihangel-y-Creuddyn a allai gael effaith negyddol ar olygfeydd y pentref, yn enwedig pe bai mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol - a oes pwynt ymatal ar gyfer datblygiadau o'r fath? Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cyflwr seilwaith ffyrdd bach gwledig sy'n arwain at ac o'r Pentref sy'n aml yn cael eu

A210982 Pendre, Llanfihangel-y-creuddyn, Aberystwyth, SY23 4LB
Proposed 3 no. glamping pods, alterations to existing access and installation of package treatment plant

As communication was received referring to the above application which contained sensitive information the item was discussed as an exempt item under Part 3 (d) Community Council Standing Orders.

It was unanimously decided on the following response

Having looked at the planning application in it's own merit Trawsgoed Community Council decided that there weren't any objections to the application in principle but there were concerns regarding the site entrance, in that it appeared that the proposed access for the glamping pods would be constructed immediately upon the existing lane access to the highway. We would ask Highways Department to look on the suitability of such an entrance arrangement over safety concerns.

The Community Council had received correspondence that suggests that not all of the land outlined in red on the location plan is in the full ownership of the applicant. The Community Council can not verify this information and as it has been brought to the attention of the Community Council suggests that the Planning Officers make further enquiries into land ownership or relevant permission obtained prior to making a decision on the application.

As a general comment, there were concerns about the recent spate of applications for glamping pods and tents that have been approved within the Llanfihangel-y-Creuddyn locality which could have a negative effect on the village scenery, especially if similar applications were to be submitted in future - is there a saturation point for such developments?. Concern was also raised regarding the condition of the

hadrodd i'r Cyngor Sir fel rhai sydd angen gwaith atgyweirio ar yr wyneb, tocio gwrychoedd, ac ati, ac na fyddai twristiaid yn gwerthfawrogi culni ffyrdd gwledig o'r fath, yn enwedig pan fydd twf ochr y ffordd ond yn cael ei dorri'n ôl unwaith y flwyddyn yn unig, a all arwain at broblemau gyda diogelwch ar y ffyrdd.

Unrhyw Fater Arall

145 Arwydd ffordd ger troad Glastir angen sylw.

146 Y Clerc i ddilyn lan sefyllfa'r ffordd yn rhoi ger Royal Oak, Llanafan.

147 Piben dwr ger Glanaber, Cnwch Coch angen sylw gan fod dwr glaw'n llifo ar hyd y ffordd ac mewn perygl o orlifo tai yn hytrach na llifo i ddrain ddwr.

148 Nifer o drigolion yr ardal yn teithio ar y ffordd o Drawsgoed i Ledrod ac yn achwyn fod llifogydd ar y ffordd gyhoeddus yn ystod tywydd garw ger Dolgelynen.

149 Nifer o olwynion cerbydau wedi cael eu gadael wrth y ffordd ger fynediad i'r A4120 ger Cwmseiri.

150 Derbyniwyd cwynion fod cerbydau cyflym a swllyd yn teithio drwy pentref Llanfihangel-y Creuddyn yn hwyr y nos, yn enwedig ar benwythnosau ac yn amharu ar gwsgrigolion. Y Clerc i ymadrodd y sefyllfa i'r Heddlu Cymunedol.

151 Adroddiad fod cerbyd a fu mewn damwain wedi'i adael ers sawl wythos ar ochr ffordd o fewn yr ardal. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir am y posibilrwydd o'i symud.

152 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nos Lun 10fed Ionawr, 2022 am 7.30 y.h.

infrastructure of small country roads leading to and from the Village which are often being reported to the County Council as being in need of surface repairs, hedge trimming, etc, and which tourists would not appreciate the narrowness of such windy roads, especially when the roadside growth is only cut back once a year, which could lead to issues with road safety.

Any Other Business

A road sign near the turning of Glastir needs attention.

The Clerk to follow up on the road situation near Royal Oak, Llanafan.

A water pipe near Glanaber, Cnwch Coch needs attention as rainwater flows along the road and is at risk of flooding houses rather than flowing into a water drain.

A number of residents of the area travel on the road from Trawsgoed to Lledrod and find it inconvenient that there is flooding on the public road during severe weather near Dolgelynen.

Several vehicle wheels have been fly tipped at a roadside pull in near the junction to the A4120 near Cwmseiri.

Complaints were received that fast and loud vehicles travelled through the village of Llanfihangel-y Creuddyn late at night, particularly at weekends and disrupt residents' sleep. The Clerk report to the Community Police.

A report that a vehicle involved in a collusion has left for several weeks on the side of a road within the area. The Clerk to contact the County Council about the possibility of moving the vehicle.

DATE OF NEXT MEETING

Monday 10th January, 2022 7.30 p.m.